*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 143A(5)(m) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2025 Rhif (Cy. )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Disgrifiad o Luosyddion Gwahaniaethol) (Cymru) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae paragraff A16(1) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") yn darparu y caniateir pennu'r lluosydd ardrethu annomestig ar gyfer blwyddyn y codir swm ynglŷn â hi ar gyfer disgrifiad o hereditamentau ar restr ardrethu annomestig leol, neu ar gyfer swm gwerth ardrethol a ddangosir yn erbyn enw person dynodedig ar y rhestr ardrethu annomestig ganolog, mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r hereditamentau ar restr ardrethu annomestig leol drwy gyfeirio at y disgrifiad ohonynt a'u hystod o werthoedd ardrethol, y bydd lluosydd manwerthu a lluosydd uwch yn gymwys iddynt. Maent hefyd yn pennu'r ystod o werthoedd ardrethol a ddangosir yn erbyn enw person dynodedig ar y rhestr ardrethu annomestig ganolog y bydd lluosydd uwch yn gymwys iddynt. Bydd gwerthoedd y lluosyddion gwahaniaethol hynny yn cael eu rhagnodi gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau ar wahân a wneir o dan baragraff A16(3) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988.

Pennir hereditamentau ar restr ardrethu annomestig leol y mae lluosydd manwerthu a lluosydd uwch yn gymwys iddynt drwy gymhwyso paragraff A16(1)(a), (4)(a) a (4)(c) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988. Pennir yr ystod o werthoedd ardrethol y mae lluosydd uwch yn gymwys iddynt fel y'u dangosir yn erbyn enw person dynodedig ar y rhestr ardrethu annomestig ganolog

drwy gymhwyso paragraff A16(1)(b) a (5) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 143A(5)(m) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Disgrifiad o Luosyddion Gwahaniaethol) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraff A16(1) a (5) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**).

Yn unol ag adran 143A(5)(m) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Disgrifiad o Luosyddion Gwahaniaethol) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2026.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 1988 p. 41. Mewnosodwyd paragraff A16 o Atodlen 7 gan adran 10 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 (dsc 6).
(**2**) Mewnosodwyd adran 143A(5)(m) gan adran 14 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024.

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

mae i "diwrnod y codir swm ynglŷn ag ef" yr ystyron a ganlyn—

(a) mewn perthynas â hereditamentau a feddiennir a ddangosir ar restr leol, yr ystyr a roddir i "chargeable day" yn adran 43(3) o'r Ddeddf;

(b) mewn perthynas â hereditamentau heb eu meddiannu a ddangosir ar restr leol, yr ystyr a roddir i "chargeable day" yn adran 45(3) o'r Ddeddf;

(c) mewn perthynas â hereditamentau a ddangosir ar restr ganolog, yr ystyr a roddir i "chargeable day" yn adran 54(3) o'r Ddeddf;

ystyr "gwerth ardrethol" ("*rateable value*") yw'r gwerth a gyfrifir o dan Atodlen 6 i'r Ddeddf(**1**);

mae i "hereditament" yr ystyr a roddir i "hereditament" yn adran 64 o'r Ddeddf(**2**);

ystyr "rhestr ganolog" ("*central list*") yw rhestr a lunnir ac a gedwir o dan adran 52ZA o'r Ddeddf(**3**);

ystyr "rhestr leol" ("*local list*") yw rhestr a lunnir ac a gedwir o dan adran 41ZA o'r Ddeddf(**4**).

**Disgrifiad o luosydd manwerthu**

**3.**—(1) At ddibenion paragraff A16(1)(a) o Atodlen 7 i'r Ddeddf, mae lluosydd manwerthu.

(2) Mae'r lluosydd manwerthu yn gymwys i hereditamentau ar restr leol sydd ar y diwrnod y codir swm ynglŷn ag ef o dan sylw—

(a) â gwerth ardrethol o lai na £51,000, a

(b) wedi eu disgrifio ar y rhestr honno fel—

(i) "ciosg a mangre",

(ii) "fferyllfa a mangre",

(iii) "swyddfa bost a mangre",

(**1**) Diwygiwyd Atodlen 6 gan baragraff 38 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42), adran 1(2) a (3) o Ddeddf Ardrethu (Prisio) 1999 (p. 6), adran 14(1)(c)(i) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 (p. 53) a pharagraff 1(22) o'r Atodlen i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Diwygiwyd adran 64 gan adran 66 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26), paragraff 13 o'r Atodlen i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 a pharagraff 2 o Atodlen 10 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) Mewnosodwyd adran 52ZA gan adran 3(3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024.

(**4**) Mewnosodwyd adran 41ZA gan adran 2(3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024.

(iv) “siop a mangre”, neu

(v) “siop, swyddfa bost a mangre”.

**Disgrifiad o luosydd uwch**

**4.**—(1) At ddibenion paragraff A16(1)(a) o Atodlen 7 i’r Ddeddf, mae lluosydd uwch.

(2) Mae’r lluosydd uwch yn gymwys i hereditamentau ar restr leol sydd ar y diwrnod y codir swm ynglŷn ag ef o dan sylw—

(a) â gwerth ardrethol o fwy na £100,000, a

(b) heb eu disgrifio ar y rhestr honno fel—

(i) “gorsaf ambiwlans a mangre”,

(ii) “sefydliad amddiffyn cynorthwyol a mangre”,

(iii) “mynwent a mangre”,

(iv) “coleg a mangre”,

(v) “amlosgfa a mangre”,

(vi) “gorsaf dân a mangre”,

(vii) “canolfan iechyd a mangre”,

(viii) “ysbyty a mangre”,

(ix) “llys barn a mangre”,

(x) “canolfan hamdden a mangre”,

(xi) “llyfrgell a mangre”,

(xii) “amgueddfa a mangre”,

(xiii) “gorsaf heddlu a mangre”,

(xiv) “carchar a mangre”,

(xv) “ysgol a mangre”,

(xvi) “canolfan chwaraeon a mangre”,

(xvii) “meddygfa a mangre”,

(xviii) “pwll nofio a mangre”, neu

(xix) “prifysgol a mangre”.

**5.**—(1) At ddibenion paragraff A16(1)(b) o Atodlen 7 i’r Ddeddf, mae lluosydd uwch.

(2) Mae’r lluosydd uwch yn gymwys i hereditamentau ar y rhestr ganolog sydd â gwerth ardrethol o fwy na £100,000.

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad